## SIARTER GORFODI CYNLLUNIO (DIWYGIWYD 2025)

### BETH YW DIBEN Y SIARTER HON?

Mae gorfodi cynllunio yn ymchwilio i achosion posibl o dorri rheolaeth gynllunio, a'i nod yw datrys y rhain gan ddefnyddio'r ffordd neu'r camau mwyaf priodol.

Diben y Siarter yw:-

- Cynnig crynodeb o'r hyn a allai olygu torri rheolaeth gynllunio;
- Rhoi gwybodaeth i'n cwsmeriaid ynghylch adrodd am dorri rheolaeth gynllunio (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'cwyn am orfodi cynllunio');
- Rhoi crynodeb o'r hyn sy'n digwydd i gŵyn am orfodi cynllunio ar ôl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ei chael a nodi'r safonau gwasanaeth yr ydym yn ceisio eu cyflawni er mwyn sicrhau y rhoddir sylw amserol i gwynion
- Rhoi crynodeb ynghylch y ffordd y mae'r ACLl yn penderfynu a yw hi'n briodol gweithredu neu beidio; a
- Nodi manylion y pwerau gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor.

Caiff y Siarter hon ei hadolygu a'i diweddaru yn ôl yr angen er mwyn ystyried newidiadau deddfwriaethol ac unrhyw adborth a geir.

### BETH SY'N CYFATEB AG ACHOS O DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO?

Caiff torri rheolaeth gynllunio ei ddiffinio yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel a ganlyn:

*"cyflawni datblygiad heb sicrhau'r caniatâd cynllunio gofynnol, neu fethu cydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad a bennwyd wrth roi caniatâd cynllunio."*

Mae enghreifftiau o dorri rheolaeth gynllunio yn cynnwys:-

- gwaith adeiladu, gweithrediadau peirianneg a newidiadau defnydd perthnasol a gyflawnir heb sicrhau caniatâd cynllunio, lle y mae gofyn sicrhau caniatâd cynllunio
- gwaith datblygu sydd wedi sicrhau caniatâd cynllunio, ond na chaiff ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau cymeradwy
- methu cydymffurfio ag amodau neu delerau cytundeb cyfreithiol sy'n gysylltiedig â chaniatâd neu gydsyniad
- hysbysebion sy'n gofyn am gydsyniad datganedig dan y Rheoliadau Hysbysebu, ond sy'n cael eu dangos heb i'r cydsyniad gael ei roi*
- gwaith dymchwel mewn ardal gadwraeth, heb sicrhau cydsyniad ardal gadwraeth, pan fydd yn ofynnol*
- gwaith a gyflawnir ar adeilad "rhestredig" sy'n effeithio ar ei gymeriad hanesyddol neu ei leoliad, heb sicrhau cydsyniad adeilad rhestredig*
- methu cydymffurfio â gofynion hysbysiad cyfreithiol cynllunio megis gorfodi, terfynu, hysbysiad stop, ac ati*
- tir neu adeiladau anniben y gallent fod yn cael effaith niweidiol ar amwynder ardal.

(*Mae'r eitemau hyn yn drosedd).

Yn eithaf aml, ni fydd gofyn i ddatblygiadau penodol sicrhau caniatâd cynllunio mewn gwirionedd. Gallai hyn fod oherwydd nad ydynt yn 'ddatblygiad', neu efallai eu bod yn 'ddatblygiad a ganiateir' (sy'n golygu nad oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio).

Sylwer hefyd na fyddwn yn cymryd rhan mewn unrhyw anghydfodau rhwng cymdogion neu am ffiniau, neu mewn unrhyw faterion sifil. Nid oes gan y gwasanaeth cynllunio unrhyw reolaeth dros faterion o'r fath, felly ni fydd yr ACLl yn ymchwilio iddynt.

**SUT I ADRODD AM DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO:-**

Er y bydd y Cyngor yn ceisio nodi achosion posibl o dorri rheolaeth gynllunio fel rhan o'i waith, mae'n wasanaeth adweithiol i raddau helaeth, sy'n ymateb i gwynion a geir gan aelodau'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig.

Mae modd adrodd am dorri rheolaeth gynllunio, naill ai:-

- Trwy ffonio'r Cyngor ar (01545) 570881. Bydd Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Clic yn rhoi copi i chi o'r Ffurflen Ymchwilio Gorfodi i chi ei llenwi a'i dychwelyd i'r Cyngor.

Neu;

- Trwy e-bostio copi o'r Ffurflen Ymchwilio Gorfodi wedi'i llofnodi (sydd ar gael trwy'r ddolen we isod), a phan fo modd, anfon cynllun lleoliad i'r cyfeiriad e-bost canlynol

planning.enforcement@ceredigion.gov.uk

Neu;

- Trwy bostio copi o’r Ffurflen Ymchwilio Gorfodi wedi’i llenwi, a phan fo modd, cynllun lleoliad, i’r cyfeiriad canlynol:

  Gwasanaethau Cynllunio (Gorfodi),

  Cyngor Sir Ceredigion,

  Canolfan Rheidol,
  Rhodfa Padarn,
  Llanbadarn Fawr,
  Aberystwyth,
  SY23 3UE

Sylwer na fydd yr awdurdod mewn sefyllfa i ymchwilio i gwynion am orfodi cynllunio pan na fydd ffurflen wedi’i llenwi wedi cael ei chyflwyno’n gywir, oni bai bod y mater yn fater brys, er enghraifft lle y mae gwaith yn cael ei wneud ar adeilad rhestredig heb gydsyniad.

**PA WYBODAETH Y BYDD ANGEN I NI EI CHAEL GENNYCH PAN FYDDWCH YN ADRODD AM ACHOS O DORRI RHEOLAETH GYNLLUNIO?**

Wrth adrodd am achos o dorri rheolaeth gynllunio, gofynnir i chi lenwi Ffurflen Ymchwilio Gorfodi, y mae modd cael copi ohoni trwy’r ddolen ganlynol:

Planning Enforcement Investi

Mae’r ffurflen yn gofyn am wybodaeth megis:-

1. Union leoliad y safle neu’r eiddo y mae’r gŵyn am orfodi cynllunio yn ymwneud ag ef
2. Manylion llawn yr achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio a manylion y niwed sy’n cael ei achosi.
3. Os oes modd, manylion yr unigolyn/ sefydliad sy’n gyfrifol a’r dyddiad a/neu’r amser pan ddechreuodd y tor amod ac os yw hynny’n berthnasol, pryd y daeth i ben.
4. Manylion yr achwynydd (enw a chyfeiriad ac ati)
   Sylwer y cedwir manylion yr achwynydd yn gyfrinachol ac na fyddant ar gael i’r cyhoedd.

Nodwch y bydd manylion yr achwynwr yn aros yn gyfrinachol ac ni fyddant ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd penodol gallai fod yn ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth amdanoch chi, megis:
• Lle mae gofynion cyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu'r wybodaeth
• Lle mae datgelu'r wybodaeth yn ofynnol i atal neu ddarganfod trosedd; neu

• Lle mae datgelu o fuddiant hanfodol i'r person dan sylw

Dylech fod yn ymwybodol hefyd y gallai achwynwyr gael cais i roi gwybodaeth bellach, megis:

• Tystiolaeth ar ffurf dyddiadur i gadarnhau unrhyw honiadau a wnaethpwyd

Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ddatganiadau amhriodol neu ddifenwol a wneir yn y ffurflen ymchwilio neu unrhyw ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â hi, naill ai ynghylch yr unigolyn yr honnir eu bod wedi cyflawni'r datblygiad heb ganiatâd cynllunio, neu unrhyw un o swyddogion y Cyngor. Dylai cynnwys unrhyw ddogfennaeth a gyflwynir ganolbwyntio ar wybodaeth ffeithiol yn unig.

**BETH FYDD YN DIGWYDD I'CH CWYN AM ORFODI CYNLLUNIO?**

Yn fyr:-

1. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi cael eich cwyn am orfodi cynllunio cyn pen 14 diwrnod os rhoddir cyfeiriad post neu gyfeiriad e-bost;

2. Rhoddir blaenoriaeth i'r gŵyn am orfodi cynllunio yn unol â'r Cynllun Blaenoriaethu, er mwyn sicrhau bod adnoddau sydd ar gael yn cael eu neilltuo mewn ffordd briodol a chymesur.

   - Achosion "Blaenoriaeth 1" fydd y rhai sy'n ymwneud â dymchwel neu wneud addasiadau i adeiladau rhestredig, gwaith heb ei awdurdodi i goed gwarchodedig ac achosion eraill sy'n achosi niwed difrifol.

   - Rhoddir "Blaenoriaeth 2" i'r achosion hynny y mae'r Awdurdod o'r farn eu bod yn cael effaith niweidiol sylweddol a'u bod yn debygol o arwain at gamau gorfodi ffurfiol, os na chânt eu cywiro.

   - "Blaenoriaeth 3" yw'r achosion hynny yr ystyrir eu bod yn cael llai o effaith ac y mae'r Awdurdod o'r farn na fyddai hi'n fuddiol cymryd camau gorfodi ffurfiol yn eu cylch. Gwahoddir ôl-geisiadau cynllunio i gywiro'r sefyllfaoedd hyn. Mae estyniadau mân i aneddiadau, y mae gofyn iddynt gael caniatâd cynllunio, yn enghreifftiau.

   - Mae achosion "Blaenoriaeth 4" yn ymwneud â mân weithrediadau sy'n cael effaith gyfyngedig iawn, er enghraifft ffensys, rhai hysbysebion, neu ddysglau lloeren ar adeiladau nad ydynt yn adeiladau rhestredig.

   A

3. Byddwn yn ceisio ystyried ac ymchwilio i'r achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio cyn pen 84 diwrnod o gael y gŵyn am orfodi cynllunio, gan hysbysu'r achwynydd o ganlyniad yr ymchwiliad, er enghraifft a fu achos o dorri rheolaeth gynllunio, ac os felly, sut yr ydym yn bwriadu rhoi sylw i'r achos.

Sylwer, fodd bynnag, nad oes modd rhagweld bob tro yr amser y bydd ei angen er mwyn gwneud penderfyniad neu weithredu ynghylch achos. Gorfodi yw un o'r rhannau mwyaf cymhleth o'r system gynllunio, ac mae oedi gyda'r cynnydd yn gallu digwydd am sawl rheswm, er enghraifft lle y mae'n rhaid casglu tystiolaeth a'i chadarnhau dros gyfnod o amser, pan fo trafodaethau yn digwydd, pan fydd yn rhaid defnyddio gweithdrefnau ffurfiol neu pan gaiff hawliau apêl eu harfer ac ati.

At hynny, sylwer nad oes gan y gwasanaeth y capasiti na'r adnodd i ddarparu diweddariadau parhaus i achwynwyr wrth bod ymchwiliadau neu achosion gorfodi yn cael eu cynnal. Rydym yn deall bod hyn yn gallu bod yn rhwystredig, ond rhaid i ni sicrhau bod ein hadnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol ag y bo modd.

**PENDERFYNU A DDYLID GWEITHREDU NEU BEIDIO:**

Mae'n bwysig sylweddoli, er yr ystyrir pob cwyn am orfodi cynllunio, na fydd pob un yn arwain at gamau gorfodi.

Ym mwyafrif yr achosion, bydd y Cyngor yn ceisio trafod er mwyn cytuno ar gydymffurfiaeth yn hytrach na chanlyn camau ffurfiol, er yn yr achosion hynny lle y mae difrod neu niwed amgylcheddol difrifol yn cael ei wneud i amwynderau preswylwyr cyfagos, neu pan achosir difrod i dirluniau, coed a/neu adeiladau rhestredig gwarchodedig, bydd y Cyngor yn defnyddio ystod lawn ei bwerau gorfodi er mwyn rheoli'r sefyllfa yn gyflym.

Y mater tyngedfennol yw ystyried a fyddai'r achos o dorri rheolaeth gynllunio yn effeithio ar amwynder y cyhoedd mewn ffordd annerbyniol, neu ar y defnydd a wneir o dir ac adeiladau ar hyn o bryd, a fyddai'n golygu bod angen cymryd y camau diogelu er budd y cyhoedd.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn pwysleisio:

- Y dylai unrhyw gamau gorfodi gyd-fynd â'r achos o dorri rheolaeth gynllunio y mae'n ymwneud ag ef;
- Mai'r bwriad ddylai fod i unioni effeithiau'r achos o dorri rheolaeth gynllunio, nid cosbi'r unigolyn(unigolion) sy'n gyfrifol am yr achos o dorri;
- Ei bod fel arfer yn amhriodol cymryd camau gorfodi ffurfiol am achos dibwys neu dechnegol o dorri rheolaeth, nad yw'n achosi unrhyw niwed i amwynder y cyhoedd; ac
- Na ddylid cymryd camau gorfodi er mwyn unioni datblygiad na cheisiwyd caniatâd ar ei gyfer, ond y mae'n dderbyniol fel arall.

Wrth ymchwilio i achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio, felly, mae'r Awdurdod wastad yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch y ffordd ymlaen fwyaf priodol mewn ffordd effeithiol ac amserol. Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, y caiff camau ffurfiol eu cymryd. Yn wir, mae camau o'r fath yn cael eu cyfyngu i'r achosion mwyaf difrifol, lle y bydd niwed yn codi ac mae angen gweithredu er budd y cyhoedd.

Ym mwyafrif yr achosion, hyd yn oed pan nodir achosion tor amod, byddwn yn ceisio datrys y rhain mewn ffordd anffurfiol, a allai gynnwys: -

• Trafodaethau anffurfiol gyda pherchennog / datblygwr i waredu achos o dor amod, neu i wneud newidiadau i ddatblygiad fel nad yw'n achos o dor amod mwyach, neu heb fod yn achosi niwed perthnasol mwyach;

• Ceisio'r cam o gyflwyno cais cynllunio i unioni achos o dor amod, a allai gynnwys yr angen i gydymffurfio ag amodau er mwyn lleihau unrhyw niwed a achosir gan y datblygiad gymaint ag y bo modd;

• Dod i'r casgliad nad oes unrhyw niwed yn codi o'r achos o dor amod, fel nad yw hi'n fuddiol i'r Cyngor fynd â'r mater ymhellach.

**SUT FYDDWN YN PENDERFYNU PRYD Y MAE'N 'FUDDIOL' CYMRYD CAMAU NEU BEIDIO?**

Pan fyddwn yn ymchwilio i gwynion am orfodi cynllunio, a phan ganfyddir bod gofyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y rhain, byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol er mwyn pennu a fyddai'r datblygiad yn dderbyniol, gan farnu hyn yn erbyn polisïau cynllunio cenedlaethol a'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Er y bydd natur asesiad o'r fath yn amrywio gan ddibynnu ar yr achos tor amod, gallai hyn olygu ystyried materion gan gynnwys egwyddor datblygu, yr effaith ar amwynder gweledol / cymeriad lleol, diogelwch ar y briffordd, ac amwynder preswyl ac ati.

Pan fyddwn yn teimlo bod datblygiad o'r fath yn debygol o fod yn dderbyniol, neu y gallai fod yn dderbyniol gydag amod, byddem fel arfer yn ceisio cyflwyno cais i unioni'r datblygiad. Bydd achosion yn aml, fodd bynnag, lle'r ystyrir na fydd natur y cais yn cael unrhyw effeithiau annerbyniol, a byddwn yn dod i'r casgliad na fyddai'n 'fuddiol' cymryd unrhyw gamau er budd y cyhoedd (gan gynnwys mynnu bod cais yn cael ei gyflwyno). Gallai enghraifft o hyn fod lle y mae amgaead ffin yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad 'datblygiad a ganiateir' yn dechnegol, ond nid yw'n cael unrhyw effaith niweidiol amlwg ar amwynder gerllaw. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn hysbysu achwynwyr o'n casgliadau ac yn cau'r ymchwiliad. Mewn achosion o'r fath lle nad oes budd, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith na fydd achwynwyr wastad yn cytuno gyda'n penderfyniad, ond bydd Swyddogion wedi arfer barn broffesiynol wrth ddod i'r casgliad hwn.

**PA FATH O GAMAU Y BYDD MODD EU CYMRYD?**

Pan benderfynir ei bod yn briodol cymryd camau yn erbyn achos o dorri amodau cynllunio, ceir sawl math o gam y bydd modd eu cymryd.

Isod, nodir crynodeb o'r prif bwerau gorfodi sydd ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol:-

1. **Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio (PCN)**

   Gellir cyhoeddi Hysbysiad Tramgwydd Cynllunio (PCN) mewn perthynas ag unrhyw achos lle y ceir amheuaeth y torrwyd rheolaeth gynllunio, ac mae'n galluogi'r Awdurdod i sicrhau gwybodaeth fanwl er mwyn cyfrannu at ei

ymchwiliad.  Nid yw cyhoeddi PCN yn atal yr Awdurdod rhag cymryd camau ffurfiol eraill yn erbyn achos o dorri rheolaeth gynllunio.  Mae gan y sawl y cyhoeddir PCN yn eu herbyn 21 diwrnod i ymateb iddo.  Mae methu ymateb i PCN (neu wneud datganiad anwir neu gamarweiniol mewn ymateb) yn drosedd, y gellir dwyn erlyniad yn ei erbyn.

2. **Hysbysiad Rhybuddio am Orfodi (EWN)**

   Cyflwynwyd Hysbysiad Rhybuddio am Orfodi yng Nghymru gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac mae modd i ACLl ei gyhoeddi pan fydd yr Awdurdod o'r farn, yn unol â phennu amodau, bod siawns resymol pe bai cais am ganiatâd cynllunio mewn perthynas â'r datblygiad anawdurdodedig yn cael ei wneud, y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi.  Bydd EWN yn rhoi cyfnod penodol lle y bydd yn rhaid cyflwyno cais, ac y bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd fel arall ar ôl hynny.

3. **Hysbysiad Gorfodi (EN)**

   Pan fydd yr ACLl yn penderfynu ei bod yn briodol cymryd camau gorfodi ffurfiol yn erbyn achos o dorri rheolaeth gynllunio er budd ehangach y cyhoedd, gall gyhoeddi Hysbysiad Gorfodi.  Gall Hysbysiad Gorfodi wneud honiad ynghylch newid perthnasol anawdurdodedig defnydd tir neu adeiladau, datblygiad gweithredol neu dor amod.  Rhaid i'r Hysbysiad Gorfodi nodi'r amser y bydd yn dod i rym, pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i unioni'r tor amod a chyfnod o amser pan fydd yn rhaid cymryd y camau hynny.  Rhaid gwneud apêl yn erbyn Hysbysiad Gorfodi (y mae modd ei wneud ar sail gyfreithiol neu gynllunio) cyn y dyddiad pan fydd yr Hysbysiad yn dod i rym (o fewn 28 diwrnod i'w gyhoeddi fel arfer).  Os gwneir apêl, caiff gofynion yr Hysbysiad eu hatal dros dro nes y gwneir penderfyniad am yr apêl.  Ar ôl i Hysbysiad ddod i rym, bydd cyfnod o amser pellach er mwyn caniatáu cydymffurfiaeth.  Bydd hyd y cyfnod yn dibynnu ar natur y tor amod.  Mae methu cydymffurfio â Hysbysiad Gorfodi yn drosedd, ac mae'n gallu arwain at ddirwy o hyd at £20,000.

4. **Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig**

   Yn debyg i Hysbysiad Gorfodi, mae Hysbysiad o'r fath yn ymwneud â gwaith anawdurdodedig ar Adeilad Rhestredig ac fe allai:- (a) fynnu bod yr adeilad yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol;  neu (b) os nad yw hynny'n ddymunol neu'n rhesymol yn ymarferol, mynnu bod gwaith arall a nodir yn yr Hysbysiad yn cael ei gyflawni er mwyn lliniaru effeithiau'r gwaith anawdurdodedig;  neu (c) mynnu bod cyflwr yr adeilad yn cael ei newid i'r hyn y byddai wedi bod pe bai amodau unrhyw gydsyniad adeilad rhestredig wedi cael eu dilyn.  Rhaid i'r Hysbysiad nodi cyfyngiadau amser er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion yr Hysbysiad.  Ceir hawl apêl yn erbyn Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig.  Mae'r gweithdrefnau'n debyg i'r rhai ar gyfer apelio yn erbyn

Hysbysiad Gorfodi. Os caiff gwaith sy'n destun Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig ei awdurdodi yn nes ymlaen gan gais ôl-weithredol am gydsyniad Adeilad Rhestredig, ni fydd unrhyw rym gan yr Hysbysiad Gorfodi Adeilad Rhestredig mwyach, er bod yr atebolrwydd dros erlyn am drosedd a gyflawnwyd cyn dyddiad unrhyw gydsyniad ôl-weithredol yn parhau.

## 5. Hysbysiadau Tor Amod (BCN)

Gellir cyhoeddi BCN pan na cheir cydymffurfiaeth gydag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio. Bydd y BCN yn nodi'r camau y mae'r ACLl yn mynnu eu bod yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amod, fel y nodir yn yr hysbysiad. Nid oes hawl apelio yn erbyn BCN (er y gellir herio penderfyniad yr Awdurdod i gyhoeddi Hysbysiad Tor Amod yn y Llysoedd) ac mae methu cydymffurfio yn drosedd, y mae modd erlyn rhywun am ei chyflawni, a gall hyn arwain at ddirwy sylweddol.

## 6. Hysbysiadau Stop (SN)

Mewn achosion penodol, gellir cyhoeddi Hysbysiad Stop er mwyn stopio gweithgarwch anawdurdodedig ar y tir. Dim ond yr un pryd â neu ar ôl cyhoeddi Hysbysiad Gorfodi y mae modd cyhoeddi Hysbysiad Stop, ac mae hwn yn cael ei gyfyngu i'r achosion mwyaf brys a niweidiol o dorri rheolaeth gynllunio fel arfer, ac mae'r ACLl mewn perygl o orfod talu iawndal os caiff ei ddefnyddio mewn achosion amhriodol. Ni cheir hawl apelio yn erbyn Hysbysiad Stop, dim ond yr Hysbysiad Gorfodi y mae'n ymwneud ag ef. Gall methu cydymffurfio â Hysbysiad Stop arwain at ddirwy sylweddol o hyd at £20,000.

## 7. Hysbysiad Stop Dros Dro

Er mis Mehefin 2015, mae ACLlau yng Nghymru wedi bod yn gallu cyhoeddi Hysbysiadau Stop Dros Dro, sy'n gallu mynnu y dylai gweithgarwch sy'n torri rheolaeth gynllunio stopio ar unwaith. Nid oes yn rhaid cyhoeddi Hysbysiad Stop Dros Dro gyda Hysbysiad Gorfodi a bydd yn dod i ben ar ôl 28 diwrnod. Dim ond pan fo'r ACLl yn credu y dylid rhoi stop ar yr achos o dor amod ar unwaith y dylid cyhoeddi Hysbysiad o'r fath.

## 8. Hysbysiadau 'Amwynder' Adran 215 (a215)

Pan fo cyflwr tir yn cael effaith niweidiol ar amwynder yr ardal, gall yr ACLl gyhoeddi hysbysiad dan a215 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n mynnu bod tir yn cael ei gynnal a'i gadw mewn ffordd gywir. Bydd yr Hysbysiad a215 yn nodi'r camau y bydd yr ACLl yn mynnu eu bod yn cael eu cymryd er mwyn adfer cyflwr y tir. Ceir hawl apelio i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn erbyn Hysbysiad a215. Mae methu cydymffurfio â Hysbysiad a215 yn drosedd.

9. **Gwaharddeb**

Os bydd awdurdod o'r farn bod achos o dorri rheolaeth gynllunio yn un digon difrifol, a'i fod yn achosi neu'n debygol o achosi niwed eithriadol, gall wneud cais i'r Llysoedd am waharddeb. Gellir carcharu'r rhai sy'n torri amodau gwaharddeb.

10. **Camau Erlyn**

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, pan fydd rhywun yn torri gofynion Hysbysiad Gorfodi, Hysbysiad Tor Amod, neu Hysbysiad Stop, maent yn euog o gyflawni trosedd a gall y gwasanaeth gorfodi cynllunio gymryd camau erlyn.

Yn ogystal, gall yr ACLl gymryd camau erlyn am gyflawni troseddau megis:-

- Dangos hysbyseb heb sicrhau cydsyniad datganedig
- Cyflawni gwaith anawdurdodedig ar goed gwarchodedig
- Cyflawni gwaith anawdurdodedig ar adeilad rhestredig
- Diffyg cydymffurfiaeth â PCN neu Hysbysiad a215

11. **Gweithredu Uniongyrchol**

Gall yr Awdurdod ddod ar y safle hefyd a chyflawni'r gwaith y mae'r Hysbysiad yn gofyn amdano ac sydd heb ei gyflawni, ac yna ceisio adennill ei gostau gan y perchennog/deiliad.

**A oes Terfynau Amser ar gyfer Camau Gorfodi?**

Rhaid cadw at y terfynau amser statudol er mwyn cymryd camau gorfodi ac efallai y bydd angen cymryd camau yn brydlon er mwyn atal achos annerbyniol o dorri rheolaeth gynllunio rhag mynd yn sefydledig ac yn anos i'w gywiro.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad 'gweithredol', a newid defnydd adeilad i fod yn dŷ annedd unigol, y terfyn amser yw pedair blynedd ar ôl cwblhau'r datblygiad.

Ar gyfer unrhyw achos arall o dorri rheolaeth gynllunio, y terfyn amser yw deng mlynedd ar ôl ei gwblhau.

Sylwer nad oes unrhyw derfynau amser yn erbyn gwaith anawdurdodedig ar adeiladau rhestredig.

**Os caiff Camau Gorfodi eu cymryd, a oes hawl apelio?**

Ceir hawl apelio yn erbyn Hysbysiad Gorfodi (gan gynnwys 'hysbysiad amwynder' a gyhoeddir dan adran 215), ond nid yn erbyn Hysbysiad Tor Amod, Hysbysiad Stop neu Hysbysiad Stop Dros Dro. Gellir gwneud apêl yn erbyn Hysbysiad i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn ystod y cyfnod (28 diwrnod fel arfer) cyn iddo ddod i rym. Gall y rheswm dros apelio gynnwys y dylid

rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y gweithgareddau a ddyfynnir yn yr Hysbysiad Gorfodi neu nad yw'r achos honedig o dorri rheolaeth gynllunio wedi digwydd. Os ceir apêl, ni fydd modd cymryd unrhyw gamau pellach fel arfer nes bydd penderfyniad wedi cael ei wneud am yr apêl.

**BETH OS BYDDWCH YN ANFODLON GYDA'R GWASANAETH YR YDYCH CHI WEDI'I GAEL?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod achwynwyr yn gallu teimlo'n bryderus iawn neu'n ddig iawn am achos honedig o dor amod, ond ni oddefir dicter neu gamdriniaeth yn erbyn swyddogion y Cyngor dan unrhyw amgylchiadau. Nid yw swyddogion y Cyngor yn gyfrifol yn uniongyrchol am y tor amod, ac maent yno i gynorthwyo achwynwyr.

Fodd bynnag, os bydd achwynydd yn anfodlon gyda'r gwasanaeth y byddant wedi'i gael gan Adran Gorfodi Cynllunio Corfforaethol y Cyngor, mae modd atgyfeirio'r mater i Adran Cwynion y Cyngor, sy'n ystyried cwynion ynghylch safonau'r gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor.

Ystyrir cwynion o'r fath o dan Bolisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol y Cyngor, sydd fel arfer yn dilyn proses dau gam - Datrysiad Anffurfiol ac Ymchwiliad Ffurfiol.

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/comments-compliments-and-complaints/corporate-complaints/

**Diweddarwyd Gorffennaf 2025**